**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 8 TACHWEDD 2023**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: S.K.Hunt, S.A.Knoyle, N.Jenkins, J.Hurley, S.Harris, W.F.Griffiths, S.Jones a/ac C.Phillips

**Swyddogion yn bresennol:**

K.Jones, A.Thomas, N.Pearce, A.Jarrett, N.Daniel, H.Jones, C.Griffiths, D.Griffiths, S.Rees, C.Morris, C.Furlow-Harris, R.Crowhurst, L.Beynon, L.McAndrew, A.Thomas a/ac T.Davies

**Swyddfa Archwillio Cymru:**

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Eglurodd y Cadeirydd y byddai'r adroddiad preifat, Eitem 15 (Cytundeb Opsiwn Arfaethedig - Hawddfreintiau o fewn Ardal Tonmawr) yn cael ei dynnu'n ôl o'i ystyried yn y cyfarfod heddiw.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr Aelodau canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod, mewn perthynas ag Eitem Rhif 11 – 2023/24 Monitro'r Gofrestr Risgiau – gan fod gan bob un ohonynt deulu sy'n gweithio i Tata Steel. Nid oeddent yn ystyried bod y buddiannau yn rhagfarnol, felly arhoson nhw yn y cyfarfod, gan gymryd rhan yn y drafodaeth a'r pleidleisio:

- Y Cynghorydd S K Noyle
- Y Cynghorydd J Hurley
- Y Cynghorydd N Jenkins

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd bod Eitem 7 ac Eitem 15 wedi'u tynnu yn ôl o'u hystyried yn y cyfarfod, ac y byddent yn cael eu haildrefnu ar y Flaenraglen Waith.

6. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 22/23**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei dynnu'n ôl o'i ystyried yn y cyfarfod, a'i aildrefnu i'w drafod yng nghyfarfod y Cabinet ar 28 Tachwedd 2023.

8. **CYNLLUN DYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH (2023-2026)**

**Penderfyniadau:**

1. Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid cyflwyno'r canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

   a. Adroddiad Gweithredu'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth (2020-2023) fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

   b. Y Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth (2023-2026) fel y nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

2. bod y gweithdrefnau cyhoeddi, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael eu rhoi ar waith.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a sicrhau bod y cyngor yn ymrwymo i gymryd camau i helpu natur i adfer.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **CYNNIG ARFAETHEDIG I GAU SWYDDFEYDD ARIAN YNG NGHANOLFANNAU DINESIG CASTELL-NEDD A PHORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Bod y cynnig i gau'r swyddfeydd arian parod yng Nghanolfannau Dinesig Castell-nedd Port Talbot yn barhaol i'r cyhoedd yn cael ei gymeradwyo.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cytuno ar drefniant parhaol mewn perthynas â'r ddwy swyddfa arian parod.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

10. **2022/23 - ADRODDIAD ALLDRO RHEOLI'R TRYSORLYS**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad monitro yn cael ei nodi.

11. **MONITRO'R GOFRESTR RISGIAU 2023/24**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad monitro yn cael ei nodi.

12. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

13. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, fod y cyhoedd yn cael eu gwahardd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 13 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

14. **ADOLYGIAD TRAFNIDIAETH TEITHWYR - PENODI YMGYNGHORWYR (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

Yn ystod cyfarfod cynharach Pwyllgor Craffu'r Cabinet, cymeradwywyd argymhelliad ychwanegol i'r Cabinet ei ystyried. Cytunodd y Cabinet ar yr argymhelliad ychwanegol, y cytunwyd arno, ac sy'n ymddangos fel Penderfyniad Rhif 4 isod.

**Penderfyniadau:**

1. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth i gomisiynu gwasanaethau ymgynghori mewn perthynas ag 'adolygiad' llif gwaith cludiant teithwyr o'r Cartref i'r Ysgol ac ADY, a nodwyd fel rhan o gynllun ariannol tymor byr a chanolig y cyngor.

2. Bod Rheol 7.3 o Reolau Gweithdrefnau Contractau'r cyngor yn cael ei hatal, a bod contract yn cael ei ddyfarnu i'r ymgynghorwyr a amlinellir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat, drwy ESPO y sector cyhoeddus.

3. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, i gwblhau'r cytundeb angenrheidiol a'r dogfennau cysylltiedig, gan ddefnyddio Fframwaith Ymgynghori ESPO, er mwyn hwyluso'r hyn a nodwyd uchod.

3. Bod llinell amser yn cael ei rhoi ar waith, a chytuno ar gamau cyfochrog i edrych ar wella sgiliau'r tîm a thyfu'r tîm.

15. **CYTUNDEB OPSIYNAU ARFAETHEDIG - HAWDDFREINTIAU O FEWN ARDAL TONMAWR (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei dynnu'n ôl o'i ystyried yn y cyfarfod heddiw.

**CADEIRYDD**